OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3238

# Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;

ystyr " y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Ebrill 2006.

**Trosglwyddo Swyddogaethau'r Cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthygl 9, trosglwyddir holl swyddogaethau'r Cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y dyddiad trosglwyddo.

**Trosglwyddo staff**

**3.** At ddibenion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981(**1**)—

(a) mae'r trosglwyddiad swyddogaethau y mae erthygl 2 yn ei wneud yn effeithiol i'w drin fel pe bai'n drosglwyddiad ymgymeriad;

(b) mae pob person a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn gyflogedig gan y Cyngor o dan gontract cyflogaeth, i'w drin fel pe bai'n gyflogedig yn yr ymgymeriad yn union cyn y dyddiad trosglwyddo.

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**4.**—(1) Ar y dyddiad trosglwyddo, trosglwyddir yr holl eiddo, hawliau a rhwymedigaethau yr oedd gan y Cyngor hawl iddynt neu yr oedd y Cyngor yn ddarostyngedig iddynt yn union cyn y dyddiad trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Bydd tystysgrif a ddyroddir gan y Cynulliad Cenedlaethol bod unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau wedi'u trosglwyddo gan baragraff (1) yn dystiolaeth ddigamsyniol o'r trosglwyddiad.

(3) Nid yw'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at hawliau a rhwymedigaethau yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau o dan gontract cyflogaeth a drosglwyddir yn rhinwedd erthygl 3.

(**1**) O.S. 1981/1794: diwygiwyd gan O.S. 1987/442.

(4) Mae i baragraff (1) effaith mewn cysylltiad ag eiddo, hawliau a rhwymedigaethau—

(a) er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai fel arall yn rhwystro eu trosglwyddo, neu'n ei gosbi, neu'n cyfyngu ar eu trosglwyddo ac eithrio drwy'r gorchymyn hwn;

(b) heb fod unrhyw offeryn neu ffurfioldeb arall yn ofynnol.

**Darpariaeth ar gyfer parhad o ran arfer swyddogaethau**

**5.** I'r graddau y mae'n ofynnol ar gyfer parhau ei effaith ar ac ar ôl y dyddiad trosglwyddo, rhaid i unrhyw beth a wnaed gan y Cyngor neu mewn perthynas ag ef ac sy'n cael effaith yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, gael effaith fel pe bai wedi'i wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol neu mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Diddymu'r Cyngor**

**6.** Ar y dyddiad trosglwyddo mae'r Cyngor yn peidio â bod.

**Darpariaethau Trosiannol**

**7.**—(1) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y Cyngor neu mewn perthynas ag ef cyn y dyddiad trosglwyddo.

(2) Caniateir i'r Cynulliad Cenedlaethol barhau, neu caniateir parhau, mewn perthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol, ag unrhyw beth (gan gynnwys achosion cyfreithiol) sydd yn y broses o gael ei wneud gan y Cyngor neu mewn perthynas ag ef cyn y dyddiad trosglwyddo.

(3) Ar neu ar ôl y dyddiad trosglwyddo, i'r graddau y bo'n angenrheidiol neu'n briodol, mae cyfeiriadau at y Cyngor, mewn unrhyw offerynnau, contractau, neu achosion cyfreithiol, i'w trin fel pe baent yn gyfeiriadau at y Cynulliad Cenedlaethol.

**Cyfrifon**

**8.**—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol—

(a) paratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer y cyfnod sy'n cychwyn ar ddyddiad y datganiad diwethaf o gyfrifon a baratowyd gan y Cyngor ac sy'n gorffen ar y dyddiad trosglwyddo;

(b) anfon copi o'r datganiad at Archwilydd Cyffredinol Cymru cyn diwedd y cyfnod o 6 mis yn cychwyn ar y dyddiad trosglwyddo.

(2) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru—

(a) archwilio ac ardystio'r datganiad y mae wedi'i dderbyn o dan yr erthygl hon a llunio adroddiad arno;

(b) gosod copi o'r adroddiad ar y datganiad gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

**Diwygiadau canlyniadol i Ddeddfau a deddfwriaeth arall**

**9.**—(1) Diwygir y Deddfau a bennir yn Atodlen 1 yn unol â'r Atodlen honno.

(2) Diwygir yr is-ddeddfwriaeth a bennir yn Atodlen 2 yn unol â'r Atodlen honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

22 Tachwedd 2005

(**2**) 1998 p.38.